WEN Wales Cymru

PAPUR BRIFFIO

**Mehefin 2023**

# GWNEUD GOFAL YN DEG



©WEN Wales 2022

## CEFNDIR

Mae'r pandemig wedi dangos i ni mai gwaith gofal – am dâl ac yn ddi-dâl – yw asgwrn cefn ein heconomi. Mae pobl sy'n darparu gofal a chymorth i eraill, gan gynnwys rhieni, gofalwyr di-dâl a'r gweithlu gofal plant a gofal cymdeithasol, yn ffurfio rhwydwaith anweledig sy'n dal ein cymdeithas ynghyd.

Ac eto, mae'r sector mewn argyfwng. Mae mwyafrif y gwaith gofal a chymorth yn cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl, a llawer ohonynt yn ei chael yn anodd a bod arnynt angen cymorth ychwanegol. Mae diffyg gofal plant fforddiadwy yn golygu na all llawer o rieni weithio neu gynyddu eu horiau. Mae tâl ac amodau'r gweithlu gofal plant a gofal cymdeithasol yn gorfodi llawer i adael y sector, gan greu cyfradd trosiant staff uchel a bylchau yn y ddarpariaeth.

Nid yw'r argyfwng hwn yn effeithio ar bawb mewn cymdeithas yn gyfartal. Mae menywod yn fwy tebygol o fod mewn swyddi gofalwyr, o fod yn gofalu am blant, neu o fod yn darparu gofal a chymorth di-dâl i eraill. Mae menywod o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi'u gorgynrychioli yn y rolau gofal cymdeithasol mwyaf ansicr a'r rhai sy'n talu'r cyflogau isaf. Mae rhieni plant anabl yn ei chael yn arbennig o anodd dod o hyd i ofal plant priodol.

Er bod yr heriau'n sylweddol, mae yna gyfleoedd enfawr hefyd o ran gwneud gofal yn deg a sicrhau bod gwaith gofal di-dâl yn gallu bod yn ddewis rhydd. Byddai blaenoriaethu buddsoddiadau mewn gofal plant a gofal cymdeithasol fforddiadwy o ansawdd uchel yn mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb mewn modd effeithiol, ac yn gwella cydnerthedd a llesiant cyffredinol ein cymdeithas.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r heriau presennol ym maes gofal plant, gofal cymdeithasol a gofal di-dâl, ac yn canolbwyntio'n benodol ar eu cysylltiadau cyffredin â thlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae'n amlinellu'r cyfleoedd i fuddsoddi mewn gofal, ac yn diweddu gyda nifer o argymhellion.

Drwy gydol y papur briffio, defnyddir y term 'gofal' mewn modd cynhwysol sy'n cwmpasu'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan ofalwyr di-dâl a rhieni, yn ogystal â gwaith cyflogedig y gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant. Mae hyn yn cydnabod, er bod pob grŵp yn wynebu heriau ac amgylchiadau gwahanol, fod ganddynt lawer o ffactorau pwysig yn gyffredin. Mae pawb sy'n darparu gofal yn rhannu cryfderau a sgiliau tebyg y maent yn eu defnyddio yn y cyfraniad a wnânt i'n cymdeithas bob dydd: maent yn darparu urddas ac annibyniaeth, yn meithrin ac yn cefnogi eraill ac yn cyfrannu at gymdeithas iach a gweithredol. At hynny, mae llawer o'r heriau sy'n ymwneud â gofal yn cael eu llywio gan normau diwylliannol a chamsyniadau sy'n ystyried gofal yn faes lle nad oes angen llawer o sgiliau ac nad yw'n cynnig fawr ddim gwerth economaidd, sydd wedi'u gwreiddio mewn agweddau sy'n tanbrisio gwaith a gyflawnir yn draddodiadol gan fenywod.

## YR HERIAU CYFREDOL

### Gofal plant

Dim ond i blant tair a phedair oed y mae gofal plant am ddim ar gael ar hyn o bryd, ynghyd â pheth darpariaeth ar gyfer plant dwy oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Trwy Cynnig Gofal Plant Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio. Oddi ar fis Medi 2022, mae'r Cynnig Gofal Plant wedi'i estyn i rieni sydd mewn addysg a hyfforddiant, ond erys hyn yn gyfyngedig i blant tair a phedair oed. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gofal plant am ddim i bob plentyn dwy oed o dan y cynllun Dechrau'n Deg, ac wedi neilltuo £46 miliwn i'w ehangu rhwng 2023 a 2025. Er bod y cynllun yn cael effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad plant a sgiliau magu plant, mae'r effaith debygol ar gyflogaeth a thlodi yn gyfyngedig. Dim ond am 2.5 awr y dydd y mae cymorth ar gael mewn ardaloedd a ddiffiniwyd yn rhai Dechrau'n Deg, ac felly nid yw'n cyrraedd y mwyafrif o deuluoedd sy'n dioddef amddifadedd incwm.

Yn 2022, gwelodd Cymru y cynnydd mwyaf mewn costau gofal plant (8%) ledled y pedair gwlad, er bod ganddi rai o'r incymau canolrifol isaf a'r cyfraddau tlodi uchaf. Mae'r effaith yn cael ei theimlo gryfaf gan rieni sengl, ac o'r rhain mae 86% yn fenywod. Rhwng 2020 a 2022, roedd 38% o'r aelwydydd un rhiant yng Nghymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol, sydd bron ddwywaith yn uwch na chyfradd tlodi gyffredinol y wlad (21%).

Wrth i gostau gofal plant godi, mae argaeledd wedi gostwng. Dangosodd Arolwg 2022 y Family and Childcare Trust fod gan lai na thraean o awdurdodau lleol (29%) ddigon o ofal plant dan y Cynnig Gofal Plant. Mae digonolrwydd gofal plant yng Nghymru wedi gostwng oddi ar 2021 yn achos pob categori, ac eithrio darpariaethau ar ôl ysgol i blant 12 i 14 oed. Mae'r prinder mwyaf yn effeithio ar ddemograffeg sydd eisoes yn profi cyfraddau tlodi uwch. Mae hyn yn effeithio ar deuluoedd â phlant anabl a rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, ac nid oes unrhyw awdurdod lleol yn nodi bod yna ddigon o ofal plant ar gyfer y grwpiau hyn ym mhob rhan o'i awdurdod, yn ogystal â'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Yng nghyd-destun costau byw cynyddol, mae diffyg gofal plant fforddiadwy yn aml yn golygu nad yw'r rhai sy'n ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r cyfrifoldebau rhianta – sef menywod yn bennaf – yn gallu cymryd mwy o waith i gael deupen llinyn ynghyd. Byddai llawer yn y pen draw yn colli arian pe baent yn cynyddu eu horiau gwaith, gan fod costau gofal plant yn uwch na'r enillion ychwanegol y byddent yn eu cael. Ledled y DU, mae tri chwarter y mamau sy'n talu am ofal plant yn dweud nad yw'n gwneud synnwyr ariannol iddynt weithio. Mae hyn yn gwthio menywod y mae eu henillion yn rhy isel i dalu am ofal plant allan o'r farchnad lafur ac i dlodi.

### Gofalwyr Di-dâl

Mae gan Gymru'r gyfran uchaf yn y DU o ofalwyr hŷn a gofalwyr sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos. Yn 2019, amcangyfrifwyd bod 96% o ofal blynyddol yng Nghymru yn cael ei ddarparu gan ofalwyr di-dâl. Roedd hyn wedi dwysáu yn ystod y pandemig, a gwelwyd cynnydd yn nifer y gofalwyr di-dâl ac oriau o ofal di-dâl. Nododd cyfrifiad 2021

fod yna 311,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, ac roedd Gofalwyr Cymru yn amcangyfrif eu bod yn darparu gofal gwerth £10.6 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn. Mae tua 60% o'r gofalwyr di-dâl yng Nghymru yn fenywod.

Mae'r argyfwng costau byw, ynghyd â phrinder staff yn y sector gofal cymdeithasol, yn cael effaith enbyd ar ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae yna oedi cyn darparu pecynnau gofal cymdeithasol yn aml neu ddim ond yn rhannol y maent yn cael eu darparu i ddechrau. Mae hyn yn arwain at ofalwyr di-dâl yn camu i'r adwy i lenwi'r bylchau ac yn golygu mai diffyg capasiti gofal cymdeithasol yw'r rheswm mwyaf dros oedi cyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Mae gofalwyr di-dâl yn profi canlyniadau iechyd gwaeth, a hynny weithiau o ganlyniad uniongyrchol i'w rôl ofalu. Mae llawer o ofalwyr di-dâl yn profi anawsterau wrth geisio cael mynediad at driniaethau'r GIG, sydd yn ei dro yn effeithio ar eu gallu i ddarparu gofal. Mae tri chwarter y gofalwyr sy'n aros am driniaeth feddygol yn dweud bod hyn yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl neu gorfforol.

Mae'r argyfwng costau byw wedi pentyrru rhagor o straen ar ofalwyr di-dâl. Yn ôl adroddiad State of Caring in Wales 2022, roedd bron tri chwarter (72%) y gofalwyr yn bryderus iawn ynghylch rheoli eu costau misol. Mae'r materion hyn yn cael eu dwysáu am fod gan Gymru oedran poblogaeth cyfartalog uwch ac allbwn economaidd is na rhannau eraill o'r DU. Mae cost gofal seibiant hefyd yn mynd yn anfforddiadwy. Yng Nghymru, mae chwarter y gofalwyr (24%) yn credu bod cost gofal yn rhy uchel ac mae dros eu hanner (58%) yn poeni na fyddant yn gallu fforddio gwasanaethau na chymorth ymarferol yn y dyfodol.

### Y Gweithlu Gofal

Mae gweithwyr yn y gweithlu gofal cymdeithasol a gofal plant yn aml yn wynebu cyflogau isel a chontractau ansicr, sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl o brofi tlodi o gymharu â sectorau eraill. Mae dros 80% o'r gweithlu gofal plant a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn fenywod.

#### Y sector gofal plant

Ers cyn y pandemig, mae sector gofal plant Cymru wedi'i nodweddu gan gyflogau isel a maint isel yr elw. Mae cyfyngiadau symud a chwyddiant wedi gwaethygu heriau'n ymwneud â'r gweithlu a chynaliadwyedd yn y sector. Rhwng 2021 a 2022, gwelodd Arolygiaeth Gofal Cymru ostyngiad o 13% mewn gwarchodwyr plant a gostyngiad o 8% mewn gwasanaethau gofal plant a gwasanaethau chwarae cofrestredig yn gyffredinol.

Er bod gofal plant yn ddrud i rieni, mae gweithwyr gofal plant ar gyflogau isel ac ar gontractau swyddi ansicr. Mae contractau yn ystod y tymor yn unig yn gyffredin ac mae bron 60% o staff yn dibynnu ar sawl swydd neu incwm. Ymhlith y tri rheswm a nodir amlaf pam y mae staff yn gadael, y mae cyflogau gwell mewn sector arall ac oriau anaddas. Roedd llawer o weithwyr hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu tanbrisio ac nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi digon yn ystod pandemig COVID-19. Mae yna ddiffyg staff o leiafrifoedd ethnig a staff sy'n siarad Cymraeg, sy'n codi pryderon am allu pobl i gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg a gofal plant sy'n diwallu anghenion teuluoedd o gefndiroedd gwahanol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi'r sector yn sgil trafferthion ariannol parhaus. Oddi ar fis Ebrill 2019, gall darparwyr gofal plant cofrestredig yng Nghymru gael rhyddhad o 100% ar ardrethi annomestig (trethi busnes). Yn dilyn adolygiad, mae'r rhyddhad ardrethi wedi'i estyn tan fis Mawrth 2025. Ym mis Ebrill 2022, cynyddwyd y gyfradd fesul awr a delir o dan y Cynnig Gofal Plant o £4.50 i £5, a hynny gan Lywodraeth Cymru. Ac eto, mae'r gostyngiad parhaus yn nifer y darparwyr gofal plant yn awgrymu bod angen gweithredu pellach i sicrhau sector gofal plant cadarn a chynaliadwy yng Nghymru.

**Y sector gofal cymdeithasol**

Mae'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn wynebu materion hirsefydlog yn ymwneud â recriwtio a chadw staff, sy'n cyfrannu at y ffaith na all pobl yng Nghymru gael mynediad at ofal a chymorth digonol. Yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan y Senedd, ni chafodd pedwar o bob deg o bobl fynediad at y gwasanaethau gofal cymdeithasol yr oedd arnynt eu hangen yn ystod y pandemig, ac roedd llawer yn nodi diffyg argaeledd neu brinder staff yn rheswm dros hynny. Mae prinder staff ym maes gofal cymdeithasol hefyd yn effeithio'n sylweddol ar rannau eraill o'r system gofal iechyd, gan arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty ac o ran llif y cleifion trwy'r ysbyty.

Mae swyddi gwag heb eu llenwi yn cael effaith enfawr ar y rhai sy'n gweithio yn y sector, gan gynyddu pwysau a llwythi gwaith yn gynt ac yn gynt. Mae menywod o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wedi'u gorgynrychioli yn y rolau mwyaf ansicr a'r rhai sydd â'r cyflogau isaf, ac yn profi triniaeth waeth a llai o ymwybyddiaeth o hawliau cyflogaeth.

Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol, a chyhoeddwyd y bydd yn cynyddu i £10.90 erbyn mis Mehefin 2023. Fodd bynnag, mae dros ddwy ran o dair o'r gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cael eu cyflogi mewn gwasanaethau a gomisiynir, ac mae undeb Unsain wedi mynegi pryderon efallai na fydd rhai cyflogwyr annibynnol yn trosglwyddo hyn i'w staff.

## MANTEISION BUDDSODDI MEWN GOFAL

Mae'r sector gofal yn ffurfio rhwydwaith anweledig sy'n allweddol i lesiant yng Nghymru. Cynyddu y bydd ei bwysigrwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i ni wynebu pwysau parhaus ar y GIG a heriau ynghylch diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r adroddiad ar Anghydraddoldeb yng Nghymru'r Dyfodol yn nodi gofal yn faes gweithredu allweddol ac yn argymell blaenoriaethu adferiad a arweinir gan ofal i ddiwallu anghenion demograffig newidiol.

Fel yr amlygir yn y drafodaeth, mae pob rhan o'r argyfwng gofal yn gysylltiedig. Mae gofalwyr di-dâl yn cynnal system gofal cymdeithasol sy'n methu. Nid yw gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant yn cael eu talu'n ddigonol nac yn cael eu gwerthfawrogi digon, sy'n arwain at gyfraddau trosiant staff uchel a bylchau yn y ddarpariaeth, sy'n atal gofalwyr di-dâl a rhieni sydd â chyfrifoldebau gofal plant rhag cael cymorth. Mae bylchau

yn narpariaeth gofal cymdeithasol yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, gan roi hyd yn oed mwy o bwysau ar ein GIG.

Er y gall darparu gofal a chymorth i eraill fod yn brofiad gwerthfawr ac yn ddewis personol, mae pobl yn y rolau hyn yn aml mewn mwy o berygl o wynebu tlodi a phwysau ariannol. Mae yna dystiolaeth glir o natur ryweddol yr effaith honno, fel y gwelir o'r ffaith bod menywod yn llai tebygol o fod yn "economaidd weithgar" na dynion, eu bod deirgwaith yn fwy tebygol o nodi cyfrifoldebau gofalu yn rheswm dros fod yn economaidd anweithgar, a'u bod yn fwy tebygol o beidio â bod yn gweithio, neu'n gweithio llai na'u partner, i'w galluogi i gyflawni cyfrifoldebau gofalu.

Mae hyn oll yn dangos bod buddsoddi mewn gofal plant a gofal cymdeithasol yn allweddol i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, ac i wella llesiant a chydnerthedd ein cymdeithas a'n heconomi. Mae arolygon barn yn dangos bod pobl ledled Cymru yn effro iawn i'r heriau hyn. Mae 68% o oedolion Cymru yn meddwl nad yw gwaith gofal yn cael ei werthfawrogi ddigon gan Lywodraeth Cymru ac mae 7 o bob 10 pleidleisiwr ifanc o bob lliw gwleidyddol yng Nghymru yn dymuno gweld mwy o fuddsoddiadau mewn gofal plant a gofal cymdeithasol.

Mae yna dystiolaeth gynyddol yn y DU a thu hwnt, y byddai buddsoddi yn y sector gofal yn hybu cydraddoldeb, cyflogaeth, a thargedau sero net ar yr un pryd. Yn ôl ymchwil gan yr UK Feminist Green New Deal:

- Mae swydd gyffredin ym maes iechyd a gofal yn cynhyrchu 26 gwaith yn llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr na swydd gweithgynhyrchu, dros 200 gwaith yn llai na swydd ym maes amaethyddiaeth a bron 1,500 gwaith yn llai na swydd yn y diwydiant olew a nwy.
- Mae buddsoddi mewn addysg gynnar a gofal plant yn creu 2.5 gwaith yn fwy o swyddi â'r un buddsoddiad yn y diwydiant adeiladu, ac yn cynhyrchu mwy o enillion treth. Mae hefyd yn arwain at leihad yn y gwariant ar fudd-daliadau nawdd cymdeithasol gan ei fod yn galluogi mwy o rieni – menywod fel arfer – i weithio mwy o oriau.
- Mae buddsoddi mewn gofal hefyd yn cael effaith luosydd uwch ar sectorau eraill yn yr economi, wedi'i ysgogi gan ehangu'r sectorau gofal, sy'n cynyddu incwm gwario mwy o deuluoedd.
- O gymharu â buddsoddiad tebyg yn y diwydiant adeiladu, byddai buddsoddi mewn gofal yn cynhyrchu nifer llawer uwch o swyddi i fenywod ac yn creu nifer tebyg o swyddi i ddynion ar yr un pryd – 6.3 gwaith yn fwy o swyddi i fenywod a 10% yn fwy i ddynion. .

Mae rhestr o gyhoeddiadau allweddol i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

## YMGYRCH GWNEUD GOFAL YN DEG

Credwn fod gofalu yn effeithio ar bob un ohonom, ac mae angen i ni gydweithio i greu Cymru lle mae gofalwyr yn cael eu trin yn deg, a lle mae yna ofal plant a gofal cymdeithasol fforddiadwy o ansawdd uchel ar gael i bawb y mae arnynt eu hangen.

**Mae ein hymgyrch yn galw am y canlynol:**

- Buddsoddiad strategol mewn gofal gan y Llywodraeth i leihau anghydraddoldebau o ran incwm ar gyfer gofalwyr cyflogedig a di-dâl, a hybu'r economi. .
- Estyn y cynnig gofal plant i bob plentyn chwe mis oed a hŷn, ni waeth beth fo statws cyflogaeth y rhieni.
- Cyflog byw gwirioneddol ar gyfer y sector cyfan i weithwyr gofal cymdeithasol a gofal plant, ynghyd â chyfleoedd gwell i gamu ymlaen mewn gyrfa, a mwy o gymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant gweithwyr. .
- Cydnabyddiaeth i waith gofal di-dâl gan bobl o bob oedran a'i werthfawrogi mewn modd haeddiannol, ynghyd â buddsoddiad priodol mewn gofal seibiant a seibiannau, gwasanaethau cymorth a chamau gweithredu i wella'r broses o adnabod gofalwyr di-dâl.

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am yr Ymgyrch Gwneud Gofal yn Deg, cofrestrwch i fod yn gefnogwr a rhannwch eich stori.

## CYHOEDDIADAU ALLWEDDOL

**UK Feminist Green New Deal**

Adroddiad A Green and Caring Economy Report

A Green and Caring Economy Key Messages

A Care-led recovery from Coronavirus

**Cynghrair Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr Alban**

Adroddiadau o sesiynau bord gron Climate Action and the social care collective yn yr Alban

**Y Comisiwn Ewropeaidd**

A European Care Strategy

**UN Women**

Putting care for people at the centre of a sustainable and just economy

**Century Foundation (melin drafod yn UDA):**

Care Infrastructure Is Key to an Equitable, Green Recovery from the COVID-19 Crisis

**Cydnabyddiaethau**

Lluniwyd y papur briffio hwn gan Rose Widlake gyda chefnogaeth Grŵp Llywio Gwneud Gofal yn Deg, sy'n cynnwys Gofalwyr Cymru, Chwarae Teg, Oxfam Cymru, Cyngor Hil Cymru a TUC Cymru. Ariannwyd y papur briffio hwn yn garedig gan Oxfam Cymru. Rydym yn ddiolchgar i bob un ohonynt am eu harbenigedd a'u dirnadaeth.

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Dr Jessica Laimann
Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus
jessica@wenwales.org.uk